**Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Y FAENOL**

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:
1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Y Faenol ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £5,200
Yn Ysgol y Faenol mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Prynu adnoddau digonol i addysgu TGCh yn effeithiol trwy'r ysgol.
- Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn ymgorffori pob agwedd o TGCh.
- Gwella safonau llythrennedd a rhifedd trwy ddefnyddio TGCh. E.e. Prynu e-lyfrau 'Bug Club' i godi safonau darllen.
- Hyfforddi athrawon i ddefnyddio gwahanol raglenni a cynlluniau gwaith TGCh. E.e. HWB a 'Purple Mash'.
- Cyllido a cynnal unrhyw weithgareddau a fydd yn cynnwys gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol
  e.e. Ymyriadau dal i fyny Rhifedd a Llythrennedd. .
  Darperir cefnogaeth addysgu ar gyfer pob disgybl sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn y meysydd hyn.
  Cefnogaeth cymhorthydd er mwyn codi canlyniadau profion ac asesiadau diwedd cyfnod allweddol.
  Cefnogaeth athrawes/athro o'r Uned Dyslexia ym Mangor i wella sgiliau darllen disgyblion â dyslexia.
  Prynu adnoddau Rapid Readers a Rapid Maths ar gyfer sicrhau gwaith ar y lefel briodol i ddisgyblion sydd angen cymorth.
- Cyllido Cymunedau Dysgu Proffesiynol e.e.timau yn cydweithio yn yr ysgol a gweithgareddau Ysgol i Ysgol e.e. Gwella safonau trwy gyfrwng
  mynd ar Drywydd a Targedu disgyblion yn effeithiol.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.